Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

Datblygu Caffael Cynaliadwy
Datganiad Polisi

Mae datblygu caffael cynaliadwy yn egwyddor arwain ganolog i holl weithgareddau'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaethau a pholisïau, cyflwyno gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a'r modd y caiff y sefydliad ei redeg. Bydd yr holl weithgareddau yn ystyried set o chwe egwyddor arweiniol, i roi cydbwysedd rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol:

Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol
Parchu terfynau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned - i wella a diogelu'r amgylchedd a sicrhau bod yr adnoddau naturiol sydd eu hangen i fyw heb eu hamharu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a'u bod yn cael eu defnyddio'n ddoeth.

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach, Ddiogel a Chyfiawn
Diwallu anghenion amrywiol pawb mewn cymunedau presennol ac yng nghymunedau'r dyfodol, gan hybu lles personol, cydlyniad a chynhwysiad cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.

Cyflawni Economi Gynaliadwy
Adeiladu economi leol gref, sefydlog a chynaliadwy, sy'n cynnig cyfleoedd i bawb, drwy annog twf lleol a defnydd effeithiol o adnoddau.

Hyrwyddo Llywodraethu Da
Hyrwyddo systemau llywodraethu effeithiol a chyfranogol ar bob lefel cymdeithas - denu creadigedd, egni ac amrywiaeth pobl drwy'r gymuned gyfan. Darparu tryloywder yn y broses benderfynu.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol
Sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, tra'n ystyried ansicrwydd gwyddonol (drwy'r egwyddor ragofalu) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd cyhoeddus.

Polisi Integredig a Hirdymor
Sicrhau bod polisïau a rhaglenni gwaith y Comisiwn wedi'u hintegreiddio, fel bod pob strategaeth a pholisi, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn gweithio tuag at weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau Cymru Gynhaliol, a bod goblygiadau hirdymor penderfyniadau'n cael eu hystyried.